# Ar Dân!

Cylchgrawn C.Ff.I Ceredigion • Rhifyn 58 • Mehefin 2026









Yn y rhifyn hwn.....

- Cwrdd â'r swyddogion newydd
- Croeso i Rali Llangwyryfon
- Canlyniadau
- Her y Cadeirydd
- Teithio i Japan!
- Dawns Iau CFfI Ceredigion

a llawer, llawer MWY!!





www.yfc-ceredigion.org.uk

# Dewch i gwrdd â'r Swyddogion



Enw: Rhodri Griffiths
Clwb: Llangwyryfon
Swydd o fewn y mudiad:
Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn
Hoff gystadleuaeth?
Gwaith Coed yn Rali
Pa liw fydd ffrogiau'r swyddogion eleni?
Pwy a ŵyr - be bynnag fydd e cofiwch am y tei!!



Enw: Gwenyth Tandy
Clwb: Pontsian
Swydd o fewn y mudiad:
Brenhines y Sir
Dream job?- Plymer... fel bo' fi'n gallu gweld y gŵr yn amlach!
Hoff gystadleuaeth? Adloniant... cyfle i weld pawb ar y llwyfan.
Beth yw dy ddiod o ddewis? Paned o de yn ystod y dydd, a jin erbyn y nos!



Enw: Cari Davies
Clwb: Tregaron
Swydd o fewn y mudiad:
Dirprwy'r Sir
Hoff gystadleuaeth: Gŵyl Adloniant
Nos Wener ddelfrydol: Cheeky Chinese
Disgrifia dy hun mewn 3 gair:
Cyfeillgar, Ffyddlon, Bossy



Enw: Gwenan Owen
Clwb: Mydroilyn
Swydd o fewn y mudiad:
Dirprwy'r Sir
Hoff gystadleuaeth:
Barnu Stoc / Torri Cyw Iâr
Dydd Sul delfrydol? Diwrnod o recovero!
Pwy sy'n mynd i ennill y rali eleni? Trisant (.....ail i Fydroilyn!)



Enw: Lowri Thomas
Clwb: Pontsian
Swydd o fewn y mudiad:
Dirprwy'r Sir
Hoff gystadleuaeth? Drama
Pa 'super power' hoffet ti gael? Gallu siarad gydag anifeiliaid
Beth yw dy ddiod o ddewis? Gin a Tonic



Enw: Lynn Morris
Clwb: Llanddeiniol
Swydd o fewn y mudiad:
Dirprwy'r Sir
Hoff gystadleuaeth? Barnu stoc - yr ochr gymdeithasol ohono beth bynnag!
Os fyddet ti'n fisged, pa un a pham?
Party Ring - dibynadwy ond llawn hwyl
Beth yw dy ddiod o ddewis? Margarita ar achlysur, gin a lemonêd yn neud tro fel arall

# Dewch i gwrdd â'r Swyddogion



Enw: Sheila Rattray
Clwb: Trisant
Swydd o fewn y mudiad: Llywydd y Sir
Habit gwaetha? Colli glasses- 10x y dydd. Ffeindies i nhw unwaith yn y freezer!
Moment mwyaf embarassing? Cloi fy hunan yn y fan! Diolch byth am fy mrawd a mobile phones!!
Os bydde chi'n 'cocktail', pa un byddech chi? Cocktail ges i ar wyliau yn y Canaries y llynedd- "Not acting my age!"



Enw: Emyr Lloyd
Clwb: Tregaron
Swydd o fewn y mudiad: Is-lywydd y Sir
Moment o falchder: Yn bersonol- y plant ond ym myd yr CFfI- gweld yr aelodau yn cystadlu ac yn llwyddo.
Disgrifiwch eich hun mewn 3 gair: Penderfynol, joclyd a chydwybodol
Habit gwaethaf: Popeth munud olaf- Stwff ar goll drwy'r amser. Diolch byth am Carwen!



Enw: Angharad Ann Evans
Clwb: Mydroilyn
Swydd o fewn y mudiad: Cadeirydd y Sir
Pa 'super power' hoffet ti gael? Darllen meddyliau pobl.
Pwy sy'n mynd i ennill y Rali eleni? Rhaid bod yn ddiplomatic, sdim ots gyda fi pwy sydd yn ennill y Rali, ond bydd e'n neis gweld y rali yn mynd i ardal newydd blwyddyn nesa' eto.
Hoff ddiod? Old Mount Berries a Cherries ar y penwythnos ond coffi yn ystod yr wythnos!



Enw: Dewi Davies
Clwb: Llanddeiniol
Swydd o fewn y mudiad: Is-gadeirydd y Sir
Diod o ddewis: Seidr bob tro!
Disgrifia dy hun mewn 3 gair: Trefnus, prydlon a 'Fussy'.
Dream job: Gweithio mewn amaethyddiaeth - rhywbeth dwi wedi llwyddo gwneud.




Enw: Angharad Davies
Clwb: Penparc
Swydd o fewn y mudiad: Aelod Hŷn y Sir
Disgrifia dy hun mewn 3 gair: Gweithgar, Hapus, Cymdeithasol
Pa liw fydd ffrogiau'r Swyddogion eleni? Pinc
Pwy yw dy celebrity crush? Leigh Halfpenny



Enw: Elin Williams
Clwb: Tregaron
Swydd o fewn y mudiad: Aelod Iau'r Sir
Disgrifia dy hun mewn 3 gair: Penderfynol, Cystadleuol a Siaradus
Dydd Sul delfrydol? Dim gorfod neud gwaith ysgol
Os fyddet ti'n fisged, pa un fydde ti? Chocolate Digestive

# Arwydd Rali pa glwb?











































# Croeso i Rali Llangwyryfon

Croeso cynnes i chi gyd i Rali Llangwyryfon! Os ydych chi'n aelod, yn gyn-aelod yn feirniad, yn gefnogwr neu'n ymweld am y tro cyntaf â Rali CFFI Ceredigion, dewch yma i fwynhau gyda ni!

Thema'r rali eleni yw "Dyddiau Da", ac edrychwn ymlaen at ddiwrnod llawn hwyl, chwerthin a chreu atgofion arbennig wrth i bawb ddod ynghyd i ddathlu ysbryd unigryw'r mudiad.

Mae 57 o flynyddoedd ers i'r Rali fod yn Llangwyryfon ac fe allwn edrych yn ôl dros y blynyddoedd ar y dyddiau da yn ystod y penwythnos arbennig yma. Edrychwn ymlaen am amrywiaeth eang o gystadlaethau a gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal drwy gydol y dydd, gyda chyfle i aelodau arddangos eu talentau, eu creadigrwydd a'u gwaith caled. O'r arddangosfeydd i'r cystadlu a'r cymdeithasu, rydym yn gobeithio y bydd y thema "Dyddiau Da" yn dod â lliw, hwyl ac ychydig o hiraeth melys i'r Rali.

Hoffem ddiolch yn arbennig i deulu Tynddraenen am eu croeso ac i'r gymuned gyfan am ein cefnogi wrth gynnal y Rali eleni. Gallaf eich sicrhau ein bod wedi cael hwyl wrth baratoi a byddwn i gyd yn edrych ymlaen at gael joio yn y ddawns!



I gloi'r penwythnos, bydd Cymanfa Ganu'r Rali yn cael ei chynnal yng Nghapel Tabor, Llangwyryfon. Bydd croeso cynnes i bawb ddod i ymuno yn y canu a'r cymdeithasu wrth i ni orffen y penwythnos mewn awyrgylch gyfeillgar a chroesawgar.

Edrychwn ymlaen fel Clwb i groesawu Swyddogion newydd y Sir i'r Rali ac i weld Rhodri Griffiths, aelod o'r clwb yn Llangwyryfon yn cael ei goroni yn Ffarmwr Ifanc y Sir.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu i Langwyryfon am benwythnos cofiadwy — penwythnos o "Ddyddiau Da", cwmnïaeth dda a digon o hwyl i bawb.

Eiry Williams, Cadeirydd Rali Llangwyryfon

# Cwis Iau y Sir

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yng Nghwis Iau'r Sir ar y 23ain o Fawrth. Diolch i Emyr Lloyd am greu'r cwis.

Dyma'r canlyniadau:

1af- Mydroilyn B

2il- Tregaron B

3ydd- Llangwyryfon



Diolch hefyd i Neuadd Pontsian ac i Neuadd Tregaron am adael i ni ddefnyddio'r cyfleusterau!







## Pwy yw'r aelodau cudd?

**Aelod 1**

**Dan 18 neu 18-28 oed?**
Dan 18
**Gogledd, Canol neu De?**
Gogledd/Canol
**Swydd/Blwyddyn ysgol?**
Blwyddyn 8
**Hoff gystadleuaeth?**
Hanner awr adloniant
**Disgrifiad dy hun mewn 3 gair:**
Doniol, shei, caredig
**Habit gwaetha?**
Ateb nôl

**Aelod 2**

**Dan 18 neu 18-28 oed?**
18-28 oed
**Gogledd, Canol neu De?**
Canol
**Swydd/Blwyddyn ysgol?**
Seicolegydd Addysg dan hyfforddiant
**Hoff gystadleuaeth?**
Adloniant
**Disgrifiad dy hun mewn 3 gair:**
Sbort, 'Giggler' a Phrysur
**Habit gwaetha?**
Dweud ie i ormod o bethau

Gwelwch yr atebion ar y clawr cefn!

# Gwyl Adloniant

Ym mis Chwefror roedd Theatr Felinfach yn llawn bwrlwm gyda 5 noson o gystadlu ac adloniant. Braf oedd gweld pymtheg o glybiau yn cystadlu a channoedd o aelodau CFfI Ceredigion ar lwyfan, rhai am y tro cyntaf a rhai am y tro olaf. Yn cipio'r wobr gyntaf eleni gyda'u perfformiad o 'Wedi Cawlio' roedd clwb Felinfach! Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol...







**Actor Gorau 16 oed neu iau**
🥇 1af - Emlyn Evans, Llanddeiniol
🥈 2il - Gruffydd Davies, Pontsian
🥉 3ydd - Guto Davies, Tregaron

**Actores Orau 16 oed neu iau**
🥇 1af - Mari Williams, Tregaron
🥈 2il - Esyllt Jones, Llanwenog
🥉 3ydd - Ela Mablen Griffiths-Jones, Mydroilyn

**Actor Gorau**
🥇 1af - Dafydd Jones, Trisant
🥈 2il - Emrys Jones, Tregaron
=🥉 3ydd - Dion Evans, Pontsian a Bleddyn Thomas, Felinfach

**Actores Orau**
🥇 1af - Elen Rebeca Jones, Llangwyryfon
🥈 2il - Elin Williams, Tregaron
=🥉 3ydd - Mared Rees, Penparc a Eiry Williams, Llangwyryfon

**Cynhyrchydd Gorau**
🥇 1af - Tregaron
🥈 2il - Felinfach
🥉 3ydd - Pontsian

**Sgript Gorau**
🥇 1af - Pontsian
🥈 2il - Felinfach a Llangwyryfon
🥉 3ydd - Mydroilyn

**Technegol**
🥇 1af - Lledrod a Talybont

**Buddugol**
🥇 1af - Felinfach
🥈 2il - Pontsian
🥉 3ydd - Tregaron













## Her y Cadeirydd!

Cerdded taith o 18 milltir oedd yr her a osododd Angharad Ann Evans i aelodau a ffrindiau'r mudiad eleni. Cafwyd diwrnod llwyddiannus gyda dros 150 wedi ymuno a chwblhau'r daith. Dechreuwyd yn fore yn Neuadd Mydroilyn, cyn cael seibiant, cinio a chlonc yn Neuadd Dihewyd, ymlaen i Neuadd Lwyd, Capel Pencae gan ddiweddu'r daith gyda phryd o fwyd a diod yng Ngwesty Llanina, Llanarth.
Codwyd cyfanswm o dros £6,000 i'w ddosbarthu rhwng Ambiwlans Awyr Cymru, Mudiad CFFI Ceredigion a Chlybiau Lleol.

# Dawns Dewis Swyddogion

Cynhaliwyd Dawns Dewis Swyddogion 2026-2027 ar Nos Wener, 20fed o Fawrth yng Ngwesty Marine, Aberystwyth.
Roedd yn noson ysgafn, hwyliog, llawn dathlu efo adloniant byw.
Llongyfarchiadau i'r Swyddogion a phob lwc i chi yn y flwyddyn sydd i ddod -

Brenhines - Gwenyth Tandy, Pontsian
Ffarmwr Ifanc - Rhodri Griffiths, Llangwyryfon

Dirprwyon -
Gwenan Owen, Mydroilyn
Lowri Thomas, Pontsian
Cari Davies, Tregaron
Lynn Morris, Llanddeiniol

# Gymanfa y Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc

Cynhaliwyd Cymanfa'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc yng Nghapel Tyngwndwn, Felinfach ar Ddydd Gŵyl Dewi. Roedd yn braf gweld clybiau CFfI Felinfach a CFfI Trisant yn cyfrannu at y noson hefyd. Yn ogystal â bod yn gyfle i ddod ynghyd i fwynhau'r adloniant a'r canu, roedd y noson yn un ystyrlon iawn gan fod yr elw yn mynd tuag at elusen FND. Codwyd £1,150 tuag at yr elusen yma. Dymuna'r swyddogion ddiolch o waelod calon i bawb ddaeth i'w cefnogi ar y noson, diolch i holl aelodau'r CFfI am arwain, i fand Tyngwndwn ac i aelodau'r capel am bob cymorth. Braf bellach yw clywed fod Iestyn wedi dychwelyd adre ar ôl misoedd lu yn yr ysbyty. Diolch i bawb am yr holl gyfraniadau.









# Aelod Iau ac Aelod Hyn









Profiad Elin o gystadlu yng Nghymru ac yn Genedlaethol: "Roedd y broses ar lefel Cymru a NFYFC yn un heriol, ond hefyd dysgais lawer o sgiliau newydd megis sgiliau cyfweliad, cyfathrebu ac ateb cwestiynau ar y diwrnod. Fe wnes wir fwynhau'r profiadau yma, ac rwyf wedi elwa yn fawr ohono"

Llongyfarchiadau i Angharad Davies, CFfI Penparc ac Elin Williams, CFfI Tregaron am ennill Aelod Hyn ac Iau'r flwyddyn!

Llongyfarchiadau i Elin Williams am ennill Aelod Iau CFfI Cymru ac wedyn mynd ymlaen i ennill cydradd ail fel Aelod Iau'r Flwyddyn FfCCFfI!

# Siarad Cyhoeddus C.Ff.I Cymru

**Cymraeg**

Darllen - Tîm laf

Iau - Tîm 2il

Seiat Holi - Tîm - 2il

Hyn - Tîm 3ydd



**Saesneg**

Darllen - Tîm laf

Iau - Tîm laf

Seiat Holi - Tîm 3ydd

Hyn - Tîm 3ydd

Terfynol - Ceredigion 2il

Terfynol - Ceredigion laf

# Diwrnod Maes C.Ff.I Cymru

Cynhaliwyd Diwrnod Maes CFfI Cymru eleni ar fferm deuluol Abi Reader yn Wenfoe ar y 18fed Ebrill, gyda channoedd o aelodau o bob rhan o Gymru wedi teithio i Fro Morgannwg i gymryd rhan mewn diwrnod llawn cystadlu, dysgu a chymdeithasu.

Cafwyd cystadlaethau amrywiol yn cynnwys beirniadu stoc, ffensio, trin a thrafod offer, a nifer o weithgareddau ymarferol eraill oedd yn profi sgiliau'r aelodau. Roedd safon y cystadlu yn uchel iawn, gyda'r aelodau yn dangos gwybodaeth, hyder a brwdfrydedd mawr.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gynrychiolodd y sir mor dda.

Canlyniadau:

Stocmon Iau – Tîm 3ydd Ceredigion

Stocmon Hŷn – Tîm 3ydd Ceredigion

Unigolyn gorau dan 28 oed neu iau – 3ydd Rebeca James, Llanddewi Brefi

Arddangosfa Ciwb – 3ydd Llangeitho

Sgiliau Fferm – 2il Penparc

Cystadleuaeth ychwanegol ATV:

3ydd Huw Lewis, Trisant

2il Dafydd Eynon, Penparc

Canlyniad terfynol y diwrnod: Ceredigion 3ydd.





Milfeddygon ProStock Vets
Independently Owned Farm Animal Veterinary Surgeons





# Dawns Iau CFfI Ceredigion

27/03/2026

Clwb Rygbi Aberystwyth







## Swyddogion CFFI Ceredigion- 2026-2027

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | A | O | D | S | H | E | I | L | A | G | G | A | A |
| N | I | A | M | A | C | Y | W | H | Y | W | W | N | G |
| A | N | E | G | N | L | W | L | R | R | E | N | G | L |
| G | H | A | W | G | W | L | R | D | V | N | E | H | A |
| W | A | L | A | H | D | N | O | W | E | A | R | A | D |
| E | E | E | N | A | D | W | N | W | A | N | H | R | D |
| N | H | I | N | R | E | R | A | R | D | D | O | A | E |
| Y | I | N | E | A | N | N | R | E | Y | I | D | D | W |
| T | W | A | E | D | L | L | Y | N | N | M | R | D | I |
| H | O | D | Y | A | A | D | A | G | D | A | I | A | D |
| G | E | L | I | N | G | E | C | V | H | A | A | V | A |
| R | S | N | N | N | N | N | A | Y | I | I | N | I | O |
| R | V | T | N | I | Y | L | R | L | R | V | R | E | E |
| R | Y | M | E | A | A | L | I | H | R | R | H | S | E |

RHODRI
SHEILA
LOWRI
LYNN
GWENAN
ELIN
ANGHARADANN
GWENYTH
DEWI
ANGHARADDAVIES
DANIEL
CARI
ANNE
EMYR

## Sengl CFfI Cymru






Am dramp i Gaernarfon i Stiwdio Sain aeth rhai o aelodau'r Sir ar gyfer recordio sengl newydd CFfI Cymru yn fis Mawrth. Edrychwn ymlaen at ei lansiad!

### Dyddiadau i'ch Dyddiadur

Gyda blwyddyn y C.Ff.I yn brysur ddirwyn i ben, dyma ddyddiadau pwysig i'ch calendr

14eg o Fehefin - Chwaraeon C.Ff.I Cymru - Llanbedr Pont Steffan
17eg o Fehefin - Pwyllgorau'r Sir
24ain o Fehefin - Athletau'r Sir
26ain o Fehefin - Rygbi'r Sir
28ain o Fehefin - Cyngor ac Is-bwyllgorau CFfI Cymru
4ydd-5ed o Orffennaf - Penwythnos Cystadlaethau FfCCFfI
20fed - 23ain o Orffennaf - Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru
27ain o Fedi a 3ydd o Hydref - Diwrnod Maes CFfI Ceredigion
29ain a'r 31ain o Hydref - Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion - Pafiliwn Pontrhydfendigaid
21ain o Dachwedd - Eisteddfod C.Ff.I Ceredigion - Pafiliwn Pontrhydfendigaid



# CFfI ar Dramp!

Rhai wythnosau yn ôl gath pedair aelod o C.Ff.I Ceredigion Gwenllian ac Awen (Penparc) Hafwen (Llanwenog) a Cari (Tregaron) y fraint o ymuno a chyd aelodau ar draws Cymru ar daith ryngwladol i Siapan!



Glanio a dechrau'r daith yn y brifddinas brysur, Tokyo, cyn ymweld â'r enwog Mt Fuji! Kanazawa oedd y stop nesaf, gyda chyfle i flasu bwydydd gwahanol yn y marchnadoedd lleol. Ymlaen wedyn i Kyoto i ddysgu mwy am y diwylliant lleol, cerdded drwy'r ardaloedd Geisha ac ymweld â shrines a'r torii gates enwog. Roedd noson o sumo wrestling yn Kyoto yn uchafbwynt arall cyn dal y trên i Hiroshima, lle buon ni'n ymweld â'r Gofeb Heddwch ac yn dysgu am drasiedi'r A-Bomb. Ymhlith uchafbwyntiau eraill y daith roedd Ynys Miyajima, croesfan enwog Shibuya Junction a strydoedd bywiog Harajuku.

Gorffennwyd y daith yn Osaka brysur, gyda lot o hwyl yn Universal Studios yn cael antur gyda Mario, cyn dechrau'r daith hir adref i Gymru fach. Diolch yn fawr i C.Ff.I Cymru am y profiad anhygoel yma!




# Cinio'r Cadeirydd



Cynhaliwyd Cinio'r Cadeirydd Nos Wener 24ain o Ebrill yng Ngwesty Plu, Aberaeron.

Cefnogwyd y noson gan aelodau, ffrindiau a theulu i gefnogi Angharad Ann Evans a Sioned Caryl Davies. Dymuna'r ddwy ddiolch i Westy'r Plu am y bwyd blasus, i Llion Davies am y defnydd o'r moch, Eifion Morgans am y sylwebaeth, Gethin Hatcher am gynorthwyo efo'r betio. Diolch yn fawr hefyd i'r holl noddwyr ac i bawb brynodd mochyn neu fetiodd! I ddiweddu'r noson gwerthwyd eitemau yn yr ocsiwn.



£££

CEREDIGION NFU TRUST FUND

## FINANCIAL HELP AVAILABLE FOR STUDENTS

## NAWDD ARIANNOL AR GAEL I MYFYRWYR

IF YOU ARE GOING TO STUDY AGRICULTURE OR ANY AGRI-RELATED SUBJECT AFTER LEAVING SCHOOL, THEN YOU COULD BE ELIGIBLE FOR SPONSORSHIP, CONTACT US, OR YOUR SCHOOL, TO FIND OUT MORE.

OS YR YDYCH YN MYND I ASTUDIO AMAETHYDDIAETH NEU UNRHYW PWNC PERTHNASOL AR OL GADAEL YR YSGOL, MAE'N BOSIB Y FYDDWCH YN GYMWYS AM NAWDD. CYSYLLTWCH A NI, NEU EICH YSGOL AM RAGOR O WYBODAETH.

SWYDDFA NFU OFFICE, SOUTH ROAD, ABERAERON, CEREDIGION, SA46 0DP

**01545 571778** **aberaeron@nfumutual.co.uk**

Aelodau cudd:



Aelod 1 - Emlyn Evans
CFfI Llanddeiniol



Aelod 2 - Ella Evans
CFfI Felinfach

## Arwyddion Rali

Tregaron - Llangeitho - Caerwedros
Llanwenog - Talybont - Llanddeiniol
Trisant - Llangwyryfon - Felinfach
Llanddewi Brefi - Lledrod - Pontsian
Troedyraur - Penparc - Mydroilyn



Tîm Golygu:
Gwenyth Tandy, Rhodri Griffiths,
Cari Davies, Gwenan Owen,
Lowri Thomas a Lynn Morris.

Pob Lwc i bawb yn Rali'r Sir!
Diolch yn fawr iawn i'r holl noddwyr
sy'n sicrhau parhad y cylchgrawn hwn.

## TAGIWCH NI!

OS YW EICH CLWB YN POSTIO LLUNIAU O'CH NOSWEITHIAU AR EICH CYFRYNGAU CYMDEITHASOL, TAGIWCH CFFI CEREDIGION ER MWYN I NI RHANNU'R POST AC I DDANGOS YR HOLL WEITHGAREDDAU MAE'R MUDIAD YN EI GYNNIG

@cffi_ceredigion_yfc
@cfficeredigionyfc
@ceredigionYFC